Pecyn Dogfennau

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

DYDD MAWRTH, 2 GORFFENNAF 2024

AT: YR AELOD O'R CABINET DROS WASANAETHAU TRAFNIDIAETH, GWASTRAFF A SEILWAITH

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU RHITH GYFARFOD **YR AELOD CABINET DROS WASANAETHAU TRAFNIDIAETH, GWASTRAFF A SEILWAITH** A GYNHELIR AM **10.00 YB,** AR **DYDD LLUN, 8 GORFFENNAF, 2024** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR

Swyddog Democrataidd:	**Janine Owen**
Ffôn (llinell uniongyrchol):	**01267 224030**
E-bost:	**JanineOwen@sirgar.gov.uk**

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

A G E N D A

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 MAWRTH 2024 3 - 4

3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

AR ÔL YSTYRIED HOLL AMGYLCHIADAU'R ACHOS , GALL YR AELOD O'R CABINET YSTYRIED NAD YW'R EITEM GANLYNOL I'W CHYHOEDDI GAN EI BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINNIR YM MHARAGRAFF 16 O RAN 4 O ATODLEN 12(A) I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIAD) (CYMRU) 2007 FEL Y MAE'N YMWNEUD Â GWYBODAETH MEWN PERTHYNAS Â HAWLIAD I BREIFATRWYDD PROFFESIYNOL CYFREITHIOL Y GELLID EI CHYNNAL MEWN ACHOSION CYFREITHIOL.

4. GWELLA CYFLEUSTERAU PARCIO CEIR YN LLANSTEFFAN 5 - 12

Sylwer: - Nid oes hawl gan y wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod. Bydd y cofnod penderfyniad yn cael ei gyhoeddi fel arfer o fewn 3 diwrnod gwaith.

YR AELOD CABINET DROS WASANAETHAU TRAFNIDIAETH, GWASTRAFF A SEILWAITH

Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: E.G. Thomas (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
L. Tovey, Peiriannydd Seilwaith a Strategaeth Trafnidiaeth
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.13 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 CHWEFROR 2024

PENDERFYNWYD bod Cofnod Penderfyniadau cyfarfod yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith, a gynhaliwyd ar 7 Chwefror, 2024 yn cael ei lofnodi gan ei fod yn gywir.

3. CAIS AM GAU FFYRDD YNG NGILFACH IAGO

Ystyriodd yr Aelod Cabinet adroddiad ar gynigion i gau darn o'r briffordd gyhoeddus gan gadw hawliau llwybr ceffylau yn yr hen safle gwaith glo brig a adwaenir fel Gilfach Iago.

Nodwyd y byddai darn o briffordd gyhoeddus yn cael ei gau drwy Orchymyn mewn Llys Ynadon o dan Adran 116 o Ddeddf Priffyrdd 1980, yn amodol ar gadw hawliau llwybr ceffylau (Adran 116(4), y mae eu defnydd ar gyfer cerddwyr, marchogion a beicwyr pedalau.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelod Cabinet y byddai hawliau priffyrdd yn cael eu diddymu ar gyfer cerbydau modur yn unig, gan gadw'r hawliau ar gyfer cerddwyr, beicwyr a marchogion. Yn hyn o beth, mynegwyd y byddai adfer mynediad cyhoeddus o fudd i gymunedau Blaenau, Saron a Phen-y-groes ei fwynhau unwaith eto, o gofio bod yr ardal yn ardal lofaol weithredol am flynyddoedd lawer o dan Celtic Energy. Nodwyd hefyd y byddai agor y rhan hon o'r rhwydwaith ar gyfer y cyhoedd yn cysylltu â'r rhwydwaith llwybr troed presennol sydd eisoes ar waith yn yr ardal, gan gryfhau cysylltiadau rhwng y cymunedau a chefnogi'r rhwydwaith ehangach, gan gynnwys dyheadau Teithio Llesol rhwng Rhydaman a Cross Hands.

Hysbyswyd yr Aelod Cabinet o ganlyniad yr ymgynghoriad cychwynnol nodwyd bod proses ymgynghori statudol i ddilyn.

PENDERFYNWYD argymell i Bennaeth dros dro Gweinyddiaeth a'r Gyfraith fwrw ymlaen â chau darn o'r briffordd gyhoeddus gan gadw hawliau llwybr ceffylau yn yr hen safle gwaith glo brig a adwaenir fel Gilfach Iago o dan Adran 116(4) o Ddeddf Priffyrdd 1980.

AELOD O'R CABINET **DYDDIAD**

Yn rhinwedd paragraff(au) 16 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol